

## Ysgolion Heddwch

Megis hedyn sy'n tyfu yng nghrombil ffrwythlon y prosiect Cymru dros

Heddwch <http://www.cymrudrosheddwch.org/hafan.html> <http://www.walesforpeace.org/>

yw'r cysyniad o Ysgolion Heddwch sydd yn paratoi dinasyddion hyderus Cymraeg a Byd-eang. Yma mae cyfle i fwydo'r broses gan gynnig esiamplau o arfer dda er mwyn mynd ati i lunio rhaglen Ysgolion Heddwch yng Nghymru. Cysylltwch â ni gyda'ch adroddiadau i rannu gydag ysgolion eraill.

## **Ysgol Llanllechid, Gwynedd**

Does dim fel rhyfel neu fygythiad ohono i ganolbwyntio'r meddyliau ar heddwch. Bu Ysgol Llanllechid <http://ysgollanllechid.org/> <http://ysgollanllechid.org/eng/index.html> yn edrych ar y Rhyfel Byd Cyntaf o gyd-destun Hedd

Wyn [https://cy.wikipedia.org/wiki/Hedd\\_Wyn](https://cy.wikipedia.org/wiki/Hedd_Wyn) [https://en.wikipedia.org/wiki/Hedd\\_Wyn](https://en.wikipedia.org/wiki/Hedd_Wyn). Aeth yr ysgol gyfan ati i ddysgu rhai o gerddi Hedd Wyn ar gôf mewn sesiwn ysgol gyfan yn y neuadd. Yn ogystal, bu'r disgyblion hynaf yn dysgu Englynion Coffa Hedd Wyn gan R Williams Parry ar eu côf.

[http://revise.purplemagpie.com/welsh\\_lit/englynion\\_coffa\\_hedd\\_wyn/](http://revise.purplemagpie.com/welsh_lit/englynion_coffa_hedd_wyn/) . Yn sgil eu brwdfrydedd, gwahoddwyd cynrychiolaeth o'r ysgol i Fflandrys i gyd-fynd ag ymgyrch Côr Rygbi Gogledd Cymru i godi arian tuag at y gofeb Gymreig <http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-28825280> . Gweler Gwydion Rhys, a gynrychiolodd yr ysgol yn Fflandrys, yn trafod cymeriadau o'r ardal a fu'n y rhyfel ac yn dehongli'r Englynion Coffa yn deimladwy iawn ar glip fideo. <http://www.dailypost.co.uk/news/watch-bethesda-student-honour-wwi-7611856> .

Wrth gwrs, roedd rhaid ymweld â'r Ysgwrn <http://www.eryri-npa.gov.uk/cym/visiting/yr-ysgwrn?name=> <http://www.eryri-npa.gov.uk/visiting/yr-ysgwrn>, cartref Hedd Wyn, ac am groeso a gafwyd yno gan Gerald Williams, nai Hedd Wyn. Gwerthfawrogwyd brwdfrydedd, a haelioni Gerald yn rhannu ei amser a'i deimladau personol am y rhyfel. Dangosodd fedal a dderbyniwyd ar ôl i Hedd Wyn gael ei ladd, fel ernes am ei fywyd, ond, nid oedd Gerald yn awyddus i fawrygu'r fedal.

Rhaid ond gweld y parlwr ffrynt, yn llawn cadeiriau eisteddfodol hardd, i ddeall potensial barddol aruthrol a gollodd y genedl, a'r tristwch a fu wrth gyflwyno'r gadair ddu <http://www.eryri-npa.gov.uk/cym/visiting/yr-ysgwrn/the-black-chair> <http://www.eryri-npa.gov.uk/visiting/yr-ysgwrn/the-black-chair?name=> yn Eisteddfod

Penbedw [http://www.bbc.co.uk/cymru/hanes/safle/themau/rhyfel\\_cyntaf/hedd\\_wyn.shtml](http://www.bbc.co.uk/cymru/hanes/safle/themau/rhyfel_cyntaf/hedd_wyn.shtml) . Nid llenorion ymysg y disgyblion yn unig a deimlai'r ing. Mae blas y cynfyd yn perthyn i'r Ysgwrn, sy'n tynnu rhywun yn ôl i'r oes â fu - y synhwyrâu'n cael eu tanio wrth ymateb i'r gwres a'r mwg ar yr aelwyd wrth ymbalfalu yn yr ystafell fyw dywyll; ystafell fel yr un y cyfeirir ati yng nghegin yr Amgueddfa Genedlaethol, ac ni ellid anwybyddu swm yr hen ddefaid yn brefu'n hamddenol ar y ddôl gerllaw. Dyma beth oedd profiad uniongyrchol o fywyd yng nghefn gwlad Cymru; bywyd syml; caledi, ochor yn ochor â chymwynasgarwch a chyfeillgarwch. Torchi llewis wrth amaethu, a dilyn yr ôg, a'r capel bach yn ganolbwynt cadarn i'r bywyd teuluol. A'r cyfan yn cael ei blethu at ei gilydd gydag urddas a balchder cwblw gymreig. Yna, ar ôl cael cyfle i edrych dros ysgwydd ar ein profiadau ni fel Cymry, ac effaith y rhyfel ar deulu'r Ysgwrn, sydd erbyn hyn yn symbol cenedlaethol o'n hanes, addas oedd edrych y tu hwnt i Gymru ar agweddau o heddwch a dewrder.

Gan mai'r Ail Ryfel Byd sydd gennym yn ein cynlluniau gwaith, at yr Ail Ryfel Byd y troesom i ganfod agweddau o ddewrder a heddwch. Ein prif ffocws oedd effaith y rhyfel ar fywydau plant a phobl ifanc, boed yn Gymry, Iddewon, Almaenwyr, neu o Siapan.

- Profiadau'r Cymry: Drwy gyfres wych S4C "Lleisiau'r Ail Ryfel Byd" (Cwmni Da) <<http://www.cwmnida.tv/rhaglenni/lleisiaur-ail-ryfel-byd/>> <<http://www.cwmnida.tv/en/rhaglenni/lleisiaur-ail-ryfel-byd/>> sy'n trafod yr Ail Ryfel Byd o bersbectif Cymreig, cawsom ddysgu am yr ifaciwis, y propaganda, y brwydro a'r dioddefaint ond hefyd am ddewrder yr heddychwyr a'r gwrthwynebwyr cydwybodol.
- *Profiadau'r Iddewon* a chyfleoedd i astudio profiadau plant megis, Anne Frank <<http://www.annefrank.org.uk/>> a Hana ('Ces Hanna' <[https://cy.wikipedia.org/wiki/Delwedd:C%C3%AAs\\_Hana\\_\(llyfr\).jpg](https://cy.wikipedia.org/wiki/Delwedd:C%C3%AAs_Hana_(llyfr).jpg)> 'Hana's Suitcase' <<http://www.hanassuitcase.ca/>> ) yn agoriad llygaid ynglŷn ag erchyllterau sy'n deillio o hiliaeth. Mae'n anodd i ni heddiw amgyffred sut y datblygodd y sefyllfa i fod yn un mor frawychus. Pam na lwyddodd pobl yr Almaen neu eraill i rwystro'r holocaust? Yn sicr, mae'r ymwybyddiaeth o brofiadau yr Iddewon yn ein sbarduno ni i edrych ar ein bogel, ac yn amlygu'r pwysigrwydd i ymateb i hiliaeth ar bob lefel yn y dyddiau sydd ohoni heddiw.
- Almaen: Roedd yn agoriad llygaid i ddysgu am fudiad y Rhosyn Gwyn White Rose <<http://www.bbc.co.uk/news/magazine-21521060>> ac yn ddirdynol i ganfod ffilm ar hanes Sophie Scholl <[https://en.wikipedia.org/wiki/Sophie\\_Scholl\\_%E2%80%93\\_The\\_Final\\_Days](https://en.wikipedia.org/wiki/Sophie_Scholl_%E2%80%93_The_Final_Days)> a'i brawd a wrthwynebodd Hitler gan ymgyrchu dros heddwch.
- Prydain: Syr Nicholas Winton <[https://en.wikipedia.org/wiki/Nicholas\\_Winton](https://en.wikipedia.org/wiki/Nicholas_Winton)> Ysbrydoliaeth llwyr oedd darganfod am gariad at gyd-ddyn a dewrder y gŵr rhyfeddol hwn. Llwyddodd i achub 668 o blant drwy'r kindertransport. Roedd yr holl hanes yn adfer ein ffydd mewn brawdgarwch ac yn ein synnu wrth i ni ryfeddu at y ffaith fod un person wedi gwenud cymaint o wahaniaeth wrth weithredu yn ôl ei gydwybod. Bu i ni ddanfôn ein gwerthfawrogiad ato a gwirionom yn lân pan gafwyd ymteb gan y dyn ei hun. <<http://www.ysgollanllechid.org/eng/archif-newyddion2014.html>>. Cawsom ein tristhau pan glywsom am ei farwolaeth ddisymwth, ond braint oedd cael cadw cysylltiad gyda'i ferch Barbara Winton <[http://www.troubador.co.uk/book\\_info.asp?bookid=2813%20](http://www.troubador.co.uk/book_info.asp?bookid=2813%20)> .
- Japan: Er mor falch yr oeddem fod yna ddiwedd i'r rhyfel, does dim modd anwybyddu'r erchyllterau a ddigwyddodd i bobl gyffredin yn Nagasaki a Hiroshima <[https://en.wikipedia.org/wiki/Atomic\\_bombings\\_of\\_Hiroshima\\_and\\_Nagasaki](https://en.wikipedia.org/wiki/Atomic_bombings_of_Hiroshima_and_Nagasaki)>. Unwaith eto, drwy ddysgu am brofiadau person ifanc o'r enw Sadako Sasaki, cawsom gyfle i wneud amrywiaeth o weithgareddau gan gynnwys origami a chraen heddwch <[http://www.buddhistcouncil.org/bodhitree/Books/Story\\_of\\_the\\_Peace\\_Crane.pdf](http://www.buddhistcouncil.org/bodhitree/Books/Story_of_the_Peace_Crane.pdf)> ac ymchwilio i ddarganfod mwy am y gofeb heddwch enwog <<http://www.city.hiroshima.lg.jp/shimin/heiwa/crane.html>> . Buom yn hynod ffodus o gael ymweliadau cyson dros y blynyddoedd gan Koichi a Catherine Nagashima. Ar ôl derbyn hedyn ganddynt o'u gardd yn Japan, a'i weld yn tyfu dros y blynyddoedd mewn potyn, canlyniad naturiol ddigon oedd i'r disgyblion ofyn i Koichi blannu'r goeden fel canolbwynt i ardd heddwch, a'n safle trafod ar lain o dir yn Ysgol Llanllechid.

Heddwch ac ethos yr ysgol

Nid drwy bynciau yn unig mae modd cyflwyno agweddau o heddwch. Mae ethos cyfranogol a rhyngwladol yr ysgol yn cynnig llawer mwy o gyfleoedd ysgol-gyfan.

- Gan ddechrau gyda'r disgyblion, mae'r ysgol wedi arwain ar y peilot ysgolion gwrth-fwlio KiVa <<http://www.kivaprogram.net/assets/files/article-sunday-times-t-2.pdf>> <<http://golwg360.cymru/newyddion/cymru/125642-asesu-rhaglen-wrth-fwlio-yn->

[ysgolion-cymru](#) . Rhaglen lwyddiannus o'r Ffindir yw hon, sydd wedi derbyn sylw yn yr ysgol yn rhyngwladol gan newyddiadurwyr o Sbaen. Mae'n rhaglen arloesol sy'n caniatáu i ddisgyblion sefydlu arferion rhyngweithio iach a phositif, wrth ymwneud ag ystod helaeth o weithgareddau a dilyn gwahanol strategaethau gan gynnwys ystyried a thrafod rhagblaen, er mwyn osgoi sefyllfaoedd o wrthdaro.

- Y Cyngor Ysgol oedd y gyfrifol am weithio ar agenda Masnach  
Deg: <http://fairtradewales.com/> <http://fairtradewales.com/we/> gan eu bod yn deall pwysigrwydd rhannu adnoddau'r byd yn deg. O fwydydd Masnach Deg i ddefnyddiau, mae'r disgyblion yn weithgar yn gwneud a gwerthu nwyddau i gefnogi cymunedau dramor yn uniongyrchol <http://www.ysgollanllechid.org/ysgol-masnach-deg.html> <http://www.ysgollanllechid.org/eng/ysgol-masnach-deg.html> .
- Mae heddwch ymysg cymunedau Cymru yn hanfodol bwysig i'r ysgol hefyd, ac amlygir hyn drwy sicrhau hyfforddiant amlddiwylliant ysgol-gyfan. Gosodwyd trefn adrodd yn ei lle a gweithredir ar ei union pe cyfyd achos o wrth-hiliaeth. Dethlir amrywiaeth diwylliannol drwy brofiadau cyffrous ee gwahodd a threulio amser gyda ffrindiau o India (partneriaeth ysgolion) a dysgu am eu harferion a'u diwylliant; ymweliadau â bwyty Tsineaidd lleol a.y.y.b<<https://www.flickr.com/photos/78176418@N02/sets/72157629650240900/>> .
- Elfen hollbwysig i feithrin agweddau o heddwch a dealltwriaeth ryngwladol yw arweiniad yr ysgol yn y maes Addysg  
Byd <[http://news.bbc.co.uk/local/gogleddorllewin/hi/people\\_and\\_places/newsid\\_8828000/8828302.stm](http://news.bbc.co.uk/local/gogleddorllewin/hi/people_and_places/newsid_8828000/8828302.stm)> <[http://news.bbc.co.uk/local/northwestwales/hi/people\\_and\\_places/newsid\\_8822000/8822639.stm](http://news.bbc.co.uk/local/northwestwales/hi/people_and_places/newsid_8822000/8822639.stm)> , gan gynnal partneriaethau gydag India, Jamaica a Tsieina. Mae'r ysgol yn Ysgol Ryngwladol <<http://www.ysgollanllechid.org/ysgol-ryngwladol.html>> <<http://www.ysgollanllechid.org/eng/ysgol-ryngwladol.html>> gydnabyddedig ac wedi ennill sawl gwobr am flaengarwch yn y maes. Ond prif bwrpas yr addysg yma yw'r effaith ar y disgyblion, a does dim i guro'r sgiliau mae'r disgyblion yn eu datblygu wrth ymchwilio drwy ddatlu yr hyn sy'n wahanol, cyfnewid gwybodaeth ac addasu eu syniadau am bobl dramor sy'n dod ar ymweliadau. Mae'r Ysgol hefyd wedi elwa o gydweithio gyda'r Cyngor Prydeinig <<https://schoolsonline.britishcouncil.org/partner-school>> ac wedi bachu ar bob cyfle i athrawon yr ysgol ymweld â'u hysgolion partner. Mae'r cyfleoedd hyn yn amhrisiadwy wrth ddatblygiad gyrfa, ac ehangu gorwelion a hyder y staff wrth addysgu pynciau addysg fyd-eang.

Heddwch a materion cyfredol

Rydym yn perthnasu'r dysgu i faterion cyfredol ac mae'r dysgu yn newid yn ôl y galw, ee gwarchod ein cymuned rhag islamoffobia, dealltwriaeth o ryfeloedd cyfredol, a choffau canrif ers y Rhyfel Mawr <<http://www.cymruncofio.org/>> <<http://www.walesremembers.org/>> .

Hyderir, drwy rannu ein harferion llawr dosbarth, y bydd hyn oll yn ysgogiad i eraill adnabod y gweithgareddau sydd eisoes yn weithredol yn yr ysgolion, yn ogystal â'r hyn sydd ar ben ein agenda y dyddiau hyn: rhannu er mwyn lleihau baich gwaith a rhannu gyda chynllun Cymru dros Heddwch [cymrudroshedd@wcia.org.uk](mailto:cymrudroshedd@wcia.org.uk) [walesforpeace@wcia.org.uk](mailto:walesforpeace@wcia.org.uk) .

Adnodd darllen i ddisgyblion

hÿn/MAT: <http://www.yllofa.com/en/dangos.php?ISBN=9781847716972>